AD CLERUM

ESGOBAETH BANGOR TACHWEDD 2011

Annwyl gyfeillion

Rwyf yn amau bod yr ychydig wythnosau nesaf yn mynd i ddod yn llawer iawn prysurach wrth i ni ddechrau ar y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig a'r llawer o wasanaethau o un math neu'i gilydd. Mae'n hawdd i ni hedfan drwy'r Adfent heb oedi i ddal ein gwynt. Wrth ysgrifennu at y Cristnogion yn Rhufain, atgoffodd Paul ei gyfeillion bod y noson wedi hen dreulio a bod y dydd wrth law – roedd iachawdwriaeth yn nes na phan fu i ni gredu gyntaf (Rhufeiniaid 13:12,11). Mae'n dod o ddarlleniad Adfent traddodiadol. Mae hefyd yn fath o bersbectif na ddylid rhuthro drosto ond meddwl amdano'n weddïgar. Pam? Ar un lefel, yn syml iawn oherwydd ei fod yn cynnig persbectif tragwyddoldeb. Does dim yn union fel gweld ein treialon bob dydd yng ngoleuni pob amser a lle! Ond hefyd oherwydd ei fod yn gwahodd myfyrio o'r newydd ar yr holl bethau sy'n mynd â'n hamser a'n hynni. Gallant ymddangos i ni fel pe baent heb arwyddocâd gwirioneddol ac efallai hyd yn oed yn ddibwynt. Byddai llygaid ffydd yn awgrymu fel arall fodd bynnag. Mae ffydd yr Adfent yn gweld y cysylltiad rhwng hadau a choed ac yn adnabod hyd yn oed y gellir nad yw'r goleuni wedi gwawrio'n llawn, bod y dydd yn wir wedi hen fynd. Fel bob amser dymunaf i chi a'ch holl geraint ras a heddwch Duw.

+ Andrew

Penodiadau

Ers fy Ad Clerum diwethaf mae'r penodiadau a ganlyn wedi eu gwneud:

Y Barchg Jane Bailey, Cadeirydd y Grŵp Twristiaeth

Y Barchg Jenny Hood, Swyddog Twristiaeth

Y Parchg Ganon Geraint Edwards, Prebendari Penmynydd

Y Parchg Ganon Michael Outram, Canon Pencantor

Y Barchg Ganon Stephanie Beacon, Canonicus Primus

Y Parchg Ganon Athro Leslie J Francis, Canonicus Secundus

Y Barchg Ganon Lynne Perry, Canon Mygedol

Y Parchg Stephen Leyland, Golygydd Calendr Ymbiliau'r Esgobaeth

Y Barchg Janet Fletcher, Ficer Tîm ym Mywoliaeth Reithorol Bangor

Y Parchg Emlyn Williams, Deon Bro (dros dro), Deoniaeth Malltraeth

Y Parchg Hugh V Jones, Deon Bro (dros dro), Deoniaeth Twrcelyn

Y Parchg Ganon Roger Donaldson, Cadeirydd Grŵp Cenhadaeth Fyd-Eang

Dr John Perkins, Ysgrifennydd y Grŵp Cenhadaeth Fyd-Eang

Y Barch Ganon Stephanie Beacon, Rheithor, Bro Ardudwy Uchaf

Y Barch Sally Jones, Curad Cynorthwyol, Bro Ardudwy Uchaf

Y Barch Angela Williams, Ficer, Llansadwrn gyda Llandegfan gyda Llandysilio

Y Parch Stephen Leyland, Curad, Llansadwrn gyda Llandegfan gyda Llandysilio

Y Parch Neil Fairlamb, Rheithor Biwmares gyda Llanddona a Llaniestyn

Y Parch Paul Davies, Archddiacon Bangor a Rheithor Llanfair Mathafarn Eithaf gyda Llanbedr-goch gyda Phentraeth gyda Llanddyfnan

Y Barch Ddr Carol Roberts, Offeiriad â Gofal, Llanberis, Llanrug a Llandinorwig

Mrs Debby Leyland, Swyddog Diogelu'r Esgobaeth

Mr Glyn Lumley, Cadeirydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth

Y Parchg Ganon Geraint Meirion-Jones, Curad i Fywoliaeth Reithorol Llanbeblig

A gaf dynnu eich sylw unwaith eto at ddau benodiad arwyddocaol yn yr esgobaeth? Bydd y Parchg Paul Davies yn symud i ymuno â ni yn gynnar yn y flwyddyn nesaf ac rydym ar hyn o bryd yn edrych ymlaen at groesawu Paul, Louise, Gwilym a Llinos cyn hanner tymor yn Chwefror er mwyn trwyddedu Paul yng ngrŵp Benllech a choladu a sefydlu i swydd Archddiacon yr un penwythnos. Byddwn yn cadarnhau dyddiad cyn gynted ag y bo modd. Yn ail, rwyf wrth fy modd bod Mr Glyn Lumley sy'n addoli ym Mhwllheli wedi cytuno i gadeirio'r Bwrdd Cyllid. Mae gan Glyn gefndiroedd cryf ym mydoedd cyllid ac adnoddau dynol ac rydym yn ddiolchgar iddo am ymgymryd â'r swyddogaeth bwysig hon.

Salwch

Dymunaf hefyd fendith Duw ar y rhai nad ydynt wedi bod yn dda yn cynnwys:
Y Barchg Ganon Lynne Perry
Y Parchg Emlyn Williams
Y Parchg Ganon Tegid Roberts
Y Parchg Jim Cotter

Cydymdeimlad

A gaf gynnig fy meddyliau a'm gweddïau i'r rhai sydd wedi colli ceraint yn cynnwys:
Mrs Jackie Rees
Y Barch Lynda Cowan
Mrs Gwyneth Foulkes

Ymddeoliadau/ Ymddiswyddiadau

Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r rhai sydd wedi gwasanaethu'r esgobaeth gydag ymroddiad ac ymrwymiad a dymunaf ddiolch yn gyhoeddus i'r rhai sydd yn awr yn ymddeol yn cynnwys:
Y Parchg Bob Powley
Y Barchg Ddr Christine Brewster

Ymddiriedolaeth Tyddyn Bach

Mae digwyddiad codi arian Ymddiriedolaeth Tyddyn Bach i ddigwydd ddydd Llun 5ed Rhagfyr, "*Noswaith Nadolig*" yng nghartref Esgob Llanelwy. Bydd gwin a deintiadau, carolau a darlleniadau a raffl. Mae'r tocynnau yn £10 yr un ac ar gael gan Ms Sally Drury yn Nhyddyn Bach:

rhif ffôn: 01492 623322
e-bost: info@tyddynbachtrust.org.uk

Darllenwyr Lleyg

Mae Bwrdd y Darllenwyr wedi gofyn i mi atgoffa clerigion os bydd Darllenydd yn marw bod angen rhoi gwybod i Ysgrifennydd Bwrdd y Darllenwyr. Nid yw hyn yn syml at bwrpasau gweinyddu ond er mwyn sicrhau gofal bugeiliol iawn i unrhyw deulu sydd mewn galar.

Newidiadau yng nghyfraith PPL a phostiadau sydd ar ddod

Fel y gallech fod yn ymwybodol, gwnaed newidiadau i Ddeddf Hawlfraint, Cynlluniau a Phatentau, 1988 (CDPA) a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2011. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar bob eglwys sy'n chwarae Recordiadau Sain yn eu haneddau ac/neu yn ystod eu gweithgareddau oherwydd ei bod yn debygol y bydd arnynt yn awr angen Trwydded Eglwysig PPL.

Mae CCLI yn ymgymryd ag ymgyrch addysgol ar gyfer ei holl gwsmeriaid eglwysig a phostir neu e-bostir taflen iddynt yn y dyfodol agos. Bydd hyn yn esbonio'r newid yn y CDPA a sut y gallant benderfynu a oes angen trwydded newydd ar eu heglwys. Nid oes angen gweithredu pellach gan eglwysi yn awr. Bydd CCLI yn cysylltu â hwy eto yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Dylid prynu Trwydded Eglwys PPL newydd erbyn 1 Ionawr 2012 os bydd yn ofynnol. Bydd ar gael i'w phrynu gan yr CCLI mewn grym o 1 Hydref 2011.

Peb baech yn dymuno trafod sut mae'r drwydded newydd yn effeithio ar eich eglwysi ffoniwch y manylion isod.

Chris Williams, Rheolwr Gwerthu
Llinell uniongyrchol: 01323 436101
Symudol: 07884 050688
E-bost: cwilliams@ccli.co.uk
Gwefan: http://www.ccli.co.uk/copyright/amendment.cfm?country=gb

AGRO
Mudiad Adfer Môn a Gwynedd
Anglesey and Gwynedd Recovery Organisation

Ar 8fed Medi y llynedd bu i Mr Huw Harries a chyfaill gyd-sylfaenu Mudiad Adfer Môn a Gwynedd (AGRO). Flwyddyn yn ôl lawnsiwyd AGRO yn swyddogol ar 19eg Medi eleni. Gan ei fod yn Gristion, roedd ar Huw eisiau i AGRO weithio'n agos gyda'r eglwysi a'r gymuned yn lleol ac mae'n parhau i gyllido AGRO drwy wneud dwy swydd. Mae dibyniaeth ar alcohol wedi cynyddu bedair gwaith yng Ngogledd Orllwin Cymru ac mae'r broblem yn gwaethygu yn hytrach na gwella. Mae llawer mwy o bobl allan yn y fan yna yn dioddef yn dawel gyda'r broblem hon sydd â gormod o gywilydd i ddod ymlaen oherwydd y gwarth y mae'n ei beri i bobl y mae eu perthynas a'u hiechyd yn cael eu difrodi. Sefydlwyd yr Ystafell Fyw yng Nghaerdydd. Mae Huw yn gwneud rhywbeth cyffelyb yng Ngogledd Orllewin Cymru, ac eithrio ei fod yn ymweld â phobl yng nghysur eu cartrefi. Mae Huw yn gofyn yn garedig ac yn gweddïo am gefnogaeth yr eglwysi i frwydro yn erbyn y broblem hon.

Ymwelwch â gwefan AGRO: www.agro-cymru.org

Taith Palesteina

Rwyf wedi uwchlwytho dau fyfyrdod o f'amser ym Mhalesteina o dan dudalennau'r Esgob yn adran esgobaeth Bangor o wefan yr Eglwys yng Nghymru. A gaf gymeradwyo lle i aros pe baech yn gallu ymweld â Phalesteina? Mae Issa a Rawda Khouryia yn rhedeg gwesty teuluol yn Jifna, mae'r ddau yn Gristnogion ac yn westeiwyr hyfryd. Isod ceir manylion cyswllt Rawda ac Issa:

Gwesty Teulu'r Khouriya
Jifna
Ramallah
Glan Orllewinol
Palesteina

e-bost: rkhouriya@yahoo.com
ffôn: 00972 (0) 2811485
symudol: 00972 (0) 5995 87476

Ceir adolygiadau hefyd ar 'Trip Advisor':
http://www.tripadvisor.co.uk/ShowUserReviews-g667136-d1588394-r118413694-Khouriya_Family_Guesthouse-Ramallah.html

A allaf hefyd argymell i'ch meddyliau a'ch gweddïau y Rhaglen Hebrwng Eciwmenaidd ym Mhalesteina ac yn Israel? Da chi ymwelwch â'u gwefan am fwy o wybodaeth a daliwch yn eich gweddïau y Barchg Linda Bailey sy'n Hebryngwraig mewn rhannau heriol o'r Lan Orllewinol. www.eappi.org/

Cronfa Jiwbilî yr Eglwys yng Nghymru

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi gallu anfon 18,300 o ddoleri'r Unol Daleithiau i gyfarfod â hanner cyllideb CyngorEglwysi'r Dwyrain Agos ar gyfer 2011 i'r Clinig Deintyddol Symudol, ond mae angen £12000 yng nghronfa'r Jiwbili erbyn diwedd eleni i allu cyfarfod â gofynion y gyllideb lawn. Gobeithiaf y byddwch yn gallu gofyn i blwyfi roi'n hael, gan wrth gwrs bod y sefyllfa mor anobeithiol yn Gasa, ac mae'r NECC yn gwerthfawrogi ein pryder a'n cefnogaeth barhaus i bobl Llain Gasa. Mae manylion pellach ar gael ar wefan yr Eglwys yng Nghymru.

E Ddeiseb Metel Sgrap Di-Arian

Mae modd eich bod wedi clywed am ddeiseb i'r Llywodraeth i wahardd y defnydd o arian mewn trafodion metel sgrap. Ni allaf weld bod annog pobl i arwyddo'r ddeiseb hon yn ni-weidiol i'r Eglwys. Mae modd bod dadleuon ynghylch ei wneud yn y gyfraith ond credaf drwy arwyddo'r ddeiseb ei fod yn gwasanaethu i arddangos y pryder gwirioneddol ynghylch lladrata plwm a metel ar ein hadeiladau eglwysig.

Gellir dod o hyd i'r ddeiseb yn: http://epetitions.direct.gov.uk/petitions/406

Llyfrau ac ati

Rwyf eisoes wedi tynnu eich sylw at lyfr yr Archddiacon Andrew Jones ar Bererindod sydd ar gael o Amazon a siop lyfrau'r Gadeirlan. A gaf hefyd argymell:

Gethin Abraham-Williams – *Unfamiliar Spiritualities*

a hefyd:

Mike Starkey – *Ministry Rediscovered: Shaping a Unique and Creative Church*

Urdd Offeiriaid Catholig

Dymunaf gywiro'r hyn a ymddengys yn gamddealltwriaeth am Urdd Offeiriaid Catholig mewn perthynas â gweinidogaeth ordeiniedig ar gyfer merched. Mae'r Urdd yn bodoli i gefnogi dynion a merched yn eu gwasanaeth offeiriadol i Dduw o fewn y Cymundeb Anglicanaidd. Cymdeithas Ryngwladol o offeiriaid Anglicanaidd yw hon, gyda siapterau yn y DU, Ewrop, Gogledd America ac Awstralia, sy'n llwyr gefnogol o weinidogaeth merched ym mywyd yr eglwys. Rwyf yn Ymwelydd i Urdd Offeiriad Catholig Bangor ac yn cefnogi'r gymdeithas hon yn yr esgobaeth.

Yr eiddoch gyda phob gras a heddwch

+Andrew

Y Gwir Barchedig Andrew John, Esgob Bangor, Tŷ'r Esgob, Ffordd Garth Uchaf, Bangor, Gwynedd LL57 2SS
Ffôn: 01248 362895, Ffacs: 01248 372454, E-bost: bishop.bangor@churchinwales.org.uk